

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

**Cynllun i gynyddu capasiti Ysgol Llanfair
Dyffryn Clwyd**

Medi 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cyd-destun cenedlaethol	3
3. Cyd-destun Lleol.....	3
Defnydd y Gymuned o'r Ysgol.....	4
Hyrwyddo Dwyieithrwydd	4
4. Cefndir	4
5. Ffynonellau gwybodaeth.....	5
6. Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	5
Yr ysgol addas agosaf.....	5
Rhuglder disgyblion yn yr ysgol.....	8
7. Ystyriaethau ychwanegol a nodir yn y Cod.....	10
8. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	11
9. Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	15
10. Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.....	15
Data Cyfrifiad	15
Asesiad Risg	16
Trosolwg - Effaith gychwynnol bosibl ar yr Iaith Gymraeg.....	18
11. Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar yr Iaith Gymraeg.....	18
12. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned	18
13. Crynodeb o effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol.....	22

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynllun i gynyddu capasiti Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd o 105 o ddisgyblion llawn amser i 126 o ddisgyblion llawn amser.
- 1.2. Petai'r Corff Llywodraethu yn dymuno rhoi'r Cynllun ar waith yn dilyn yr Ymgynghoriad Ffurfiol, byddai hynny yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

2. Cyd-destun cenedlaethol

- 2.1. Mae Cod Trefniant Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (adolygwyd yn 2018) yn mynnu bod y cynigydd yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg pan fo'n cynnig newid trefniant ysgol.
- 2.2. Mae'r Cod Trefniant Ysgol yn nodi bod angen i gynigwyr ystyried yr effaith y gallai cynnig ei gael ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol, drwy baratoi asesiad o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar yr iaith Gymraeg drwy baratoi asesiad o'r effaith ar yr iaith os bydd unrhyw ysgol yr effeithir arni yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Cyd-destun Lleol

- 3.1. Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol wirfoddol a reolir categori 2 (dwyieithog) sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed, sydd wedi ei halinio ag Esgobaeth Llanelwy Yr Eglwys yng Nghymru.
- 3.2. Symudodd Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd i'w hadeilad ysgol newydd yn Chwefror 2020. Adeiladwyd cyfleuster newydd yr ysgol fel rhan o Raglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru.
- 3.3. Adeiladwyd yr ysgol er mwyn darparu digon o le i wasanaethu yr holl ddisgyblion presennol a digon o lefydd wrth gefn i wasanaethu niferoedd disgyblion a ragamcanwyd i'r dyfodol yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgol Blynnyddol Lefel Disgyblion (PLASC) ac y niferoedd a ragamcanwyd o ganlyniad i ddatblygiadau tai ar gyfer 63 o anheddau ychwanegol fydd yn cael eu hadeiladu yn y pentref.

- 3.4. Ers agor safle newydd yr ysgol, mae niferoedd y disgyblion wedi dechrau codi ac mae'r galw am lefydd wedi golygu bod adran derbyn i ysgolion Sir Ddinbych wedi gorfod gwrthod dewis cyntaf i ddisgyblion.

Defnydd y Gymuned o'r Ysgol

- 3.5. Mae un o'r polisiâu sydd yn gynwysedig yn y Fframwaith yn gysylltiedig â 'Defnydd Cymunedol o Ysgolion' ac mae'n amlygu ymrwymiad CSDd i ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Bydd y Corff Llywodraethu yn gweithio'n agos â CSDd er mwyn cynnal yr asesiad o'r effaith ar y gymuned tra'n ystyried newidiadau i gapasiti'r ysgol.

Hyrwyddo Dwyieithrwydd

- 3.6. Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys polisi ar hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae'r corff llywodraethu yn cydnabod pa mor bwysig yw dwyieithrwydd yng Nghrymu'r 21ain Ganrif. Fel ysgol eglwysig ddwyieithog, rydym yn rhannu dyhead CSDd i'r holl blant a phobl ifanc adael addysg lawn amser yn gymwys ac yn hyderus o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r dyhead hwn yn unol â gweledigaeth llywodraeth Cymru o 'Filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.

4. Cefndir

- 4.1. Cymeradwyodd Cabinet CSDd y Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg yn Ionawr 2009 er mwyn darparu platfform er mwyn adolygu darpariaeth ysgol bresennol.
- 4.2. Cafwyd ymrwymiad gan CSDd i ddarparu addysg or safon uchaf i blant a phobl ifanc y sir. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, cytunodd y cyngor bod moderneiddio addysg yn flaenoriaeth oherwydd ei fod yn cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau ysgol, amgylcheddau dysgu ac adnoddau sydd yn bodoli anghenion Cymru'r 21ain ganrif.
- 4.3. Roedd raid i ddarpariaeth addysg y sir newid oherwydd ni ellid cynnal gwelliannau addysg heb newid y ffordd y darparwyd addysg.
- 4.4. Mae ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r effaith bosibl ar yr Iaith Gymraeg ac ar gymunedau lleol o ganlyniad i'r Cynllun.

5. Ffynonellau gwybodaeth

Mae'r ffynonellau gwybodaeth canlynol wedi cael eu defnyddio at ddibenion y ddogfen hon:

- Holiadur Asesiad o'r Effaith a gynhaliwyd gan bennaeth Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
- Data PLASC 2021;
- Data ystadegol a storiwyd gan Gyngor Sir Ddinbych;
- Gwybodaeth Cyfrifiad 2011;
- Cyfredol - Cymraeg yng Nghynllun Strategol Addysg 2017-2020 Cynllun y Gymraeg mewn Addysg drafft 2022-2032.

6. Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

6.1. Manylion yr Ysgol:

Enw'r Ysgol	Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Lleoliad	Llanfair Dyffryn Clwyd Rhuthun Sir Ddinbych LL15 2SD
Ystod oedran	3-11
Dynodiad iaith	Dwy ffrwd
Math o Ysgol	Gwirfoddol a reolir

6.2. Nifer y disgyblion

Ym Mehefin 2021 roedd gan yr Ysgol 99 o ddisgyblion llawn amser a 13 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Dangosir isod niferoedd disgyblion yn ystod y blynyddoedd diweddar:

Disgyblion llawn amser - PLASC Ebrill 2021				
2017	2018	2019	2020	2021
94	93	90	99	99

Yr ysgol addas agosaf


- 6.3. Nid yw polisi derbyn CSDd yn defnyddio dalgylchoedd wrth bennu derbyniadau i ysgolion. Yn syml, cyfeirir at ysgolion fel yr 'ysgol addas agosaf' sydd yn

ystyried dewisiadau o ran iaith a ffydd. Ond mae dewisiadau rhieni yn golygu y gall disgyblion fynychu unrhyw ysgol cyn belled â bod yna lefydd ar gael.

- 6.4. Wrth lunio'r asesiad hwn mae angen ystyried yr ysgolion eraill y gallai'r cynllun effeithio arnynt o bosibl ble gallai disgyblion Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd eu mynychu. Mae'r rhestr o ysgolion y gellid effeithi arnynt wedi cael ei seilio ar eu nodweddion sydd yn gyffelyb i nodweddion Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, megis: capasiti cyffelyb, darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ysgol eglwysig.

Ysgol	Lleoliad	Ystod oedran	Iaith	Bras bellter ar y ffordd o Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd (milltiroedd)
Ysgol Pentrecelyn	Pentrecelyn	3-11	Cyfrwng Cymraeg	2.3
Ysgol Carreg Emlyn	Clocaenog	3-11	Cyfrwng Cymraeg	3.9
Ysgol Llanbedr (Gwirfoddol a reolir)	Llanbedr	3-11	Saesneg Cyfrwng	4
Ysgol Dyffryn Iâl (Gwirfoddol a reolir)	Llandegla	3-11	Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o Gymraeg	7

- 6.5. Mae disgyblion presennol Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn byw i raddau helaeth o fewn 3 milltir i safle'r ysgol. Mae'r map isod yn dangos gwasgariad lleoliadau disgyblion (lleoliadau cod post yn unig, data Mehefin 2021, yn cynnwys disgyblion meithrin).



	Nifer y disgyblion	Canran o Boblogaeth yr Ysgol
Yn byw o fewn 1 Milltir o safle'r Ysgol	25	22.32%
Yn byw o fewn 2 Milltir o safle'r Ysgol	29	25.89%
Yn byw o fewn 3 Milltir o safle'r Ysgol	22	19.64%
3 - 5 Milltir o safle'r Ysgol	15	13.39%
Dros 5 Milltir o safle'r Ysgol	21	18.76%

- 6.6. Oherwydd y ffaith bod Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cynnig darpariaeth unigryw fel ysgol Eglwysig ddwyieithog, mae'n anodd gwybod a yw disgyblion yn mynychu eu hysgol addas agosaf, heb wybod beth yw rhesymau disgyblion unigol dros fynychu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, a gall y tabl uchod fod yn gamarweiniol.

Rhuglder disgyblion yn yr ysgol

	Disgyblion ar y gofrestr o niferoedd CYBLD* Ebrill 2021)		
	Rhugl yn y Gymraeg	Yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	49	33	18

* CYBLD– Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion

**Yn cynnwys niferoedd Llawn amser a Rhan Amser ar y gofrestr

6.7. Iaith aelwyd y disgyblion yn yr ysgol

	Disgyblion llawn amser (Holiadur Asesiad o'r Effaith)		
	Cartrefi Cymraeg	Cartrefi Saesneg	Dwyieithog*
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	10	51	38

- Gwybodaeth a gafwyd fel rhan o'r broses asesiad o'r effaith drwy wybodaeth am ddisgyblion a ddaliwyd yng nghronfa ddata disgyblion yr awdurdod lleol.

* Yn yr achos hwn mae dwyieithog yn cyfeirio at gartref ble mae 1 rhiant yn siarad Cymraeg ac mae 1 rhiant yn siarad Saesneg

6.8. Manylion y corff llywodraethu

Nifer y Rhiant Lywodraethwyr:	4
Nifer y Llywodraethwyr Cymunedol:	2 cymunedol + 3 sylfaen
Cyfanswm y Llywodraethwyr:	15
Nifer y Llywodraethwyr Cymraeg:	13
Iaith y cofnodion	Saesneg

6.9. **Cymdeithas Rhieni ac athrawon**

Mae yna gymdeithas rhieni ac athrawon yn yr ysgol sydd yn cyfarfod bob tymor, ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Saesneg.

6.10. **Darpariaeth ychwanegol**

Y ddarpariaeth ysgol ychwanegol a gynigir y tu allan i oriau'r ysgol yw clwb brechwast dyddiol. Nid oes yna glwb ar ôl ysgol neu Glwb Gwyliau yn yr ysgol.

6.11. **Darpariaeth gofal plant /cyn-ysgol**

Mae gan yr ysgol hefyd Gylch Meithrin gaiff ei gynnal yn adeilad yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynnal yn Ystafell Gymunedol yr ysgol. Ar hyn o bryd mae'n agor ar gyfer sesiynau bore. Mae'r cylch meithrin wedi ei gofrestru i dderbyn 19 o ddisgyblion bob sesiwn. Y niferoedd ym Mehefin 2021 oedd 18 yn mynychu bob dydd.

6.12. Mae yna hefyd ddarpariaethau meithrinfeydd / gofal dydd preifat yn yr ardal leol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

6.13. **Cyfleusterau Cymunedol**

Rhestrodd y pennaeth y cyfleusterau cymunedol canlynol sydd ar gael y tu allan i'r ysgol:

- a) Neuadd Llanfair (neuadd gymunedol)
- b) Neuadd Pwllglas (neuadd gymunedol)
- c) The White Horse, Llanfair
- d) Fox and Hounds, Pwllglas
- e) Siop Gymunedol Pwllglas
- f) Eglwys Santes Fair, Llanfair
- g) Capel Salem, Llanfair
- h) Capel y Rhiw, Pwllglas

6.14. **Gweithgareddau Cymunedol - adeilad yr ysgol**

Mae'r gweithgareddau cymunedol canlynol yn cael eu cynnal yn adeilad yr ysgol:

Gweithgaredd (e.e. Gwersi Min Nos, Gwersi Cymraeg, Clybiau Diddordeb Lleol, Clwb Ieuenctid etc.)	Lleoliad	Amllder (e.e. Wythnosol, Misol, Blynnyddol)	Iaith (Cymraeg/Saesneg/Dwyieithog)
Cylch Meithrin y Graig	Ystafell Gymunedol	Dyddiol (Boreau)	Cymraeg
Cyngor Cymuned Llanfair - cyfarfodydd	Ystafell Gymunedol	Dwy waith y flwyddyn	Dwyieithog

6.15. Mae cyfyngiadau covid wedi golygu nad yw'r ysgol wedi gallu agor y neuadd ar gyfer gweithgareddau cymunedol ers agor yr adeilad newydd yn Chwefror 2020.

6.16. **Gweithgareddau Cymunedol - eraill**

Defnyddir Neuadd Llanfair a Neuadd Pwllglas gan amrywiaeth y grwpiau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau cymunedol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

7. Ystyriaethau ychwanegol a nodir yn y Cod

7.1. Er y cynlluniwyd y bydd yr ysgolion yn cynyddu eu capasiti, ni fydd y cynllun yn effeithio o gwbl ar adeilad presennol yr ysgol a sut y'i defnyddir oherwydd bod gan yr ysgol ddigon o le i gynnal y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion o fewn adeilad yr ysgol.

7.2. Mae yna rai materion penodol yn y Cod y dylai'r cynigydd eu hystyried wrth asesu effaith y cynllun ar y gymuned a'r iaith. Er hyn, rhaid nodi eu bod yn berthnasol yn unig pan fo ysgol yn cael ei chau a bod ei disgyblion yn gorfod dibynnu ar ddarpariaeth arall sydd yn bodoli. Felly, am y rhesymau a nodir ym

mharagraff 7.1 uchod, nid yw'n berthnasol at ddibenion y ddogfen hon i ystyried:

- A. A fydd neu a ellid gwella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu ehangach petai'r ysgol yn cau;
- B. Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;
- C. Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio er mwyn mynychu ysgol arall;
- D. Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad y rhieni a'r disgyblion ag unrhyw ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau maent yn eu cynnig;
- E. Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach fyddai'r newidiadau yn eu hachosi i ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;
- F. Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach;
- G. Gwybodaeth am safonau yr Iaith Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ddewisiadau eraill;
- H. Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sydd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol arall;
- I. A fyddai'n briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn sicrhau mwy ar safonau'r Iaith Gymraeg;; a
- J. Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad y rhieni a'r disgyblion ag unrhyw ysgol arall ac unrhyw ddarpariaeth gwella iaith maent yn eu cynnig.

Efallai y bydd corff llywodraethol yr ysgol yn dymuno ystyried, fel rhan o'i gwaith i'r dyfodol, sut y gall yr ysgol sicrhau bod ei phresenoldeb yn cael ei chynnal yn y gymuned.

8. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 8.1. Mae'r Corff Llywodraethu yn derbyn bod gan unrhyw newid i drefniadau addysgol y potensial i achosi amrywiaeth eang o effeithiau ar wahanol grwpiau.
- 8.2. Bydd yr asesiad o'r effaith hwn yn ystyried effeithiau ar gydraddoldeb yn achos disgyblion, staff a'r gymuned leol yn seiliedig ar y Cynllun.
- 8.3. Er mwyn asesu'r effaith bosibl, ystyriwyd y meysydd canlynol:
 - Hil

- Anabledd
- Rhyw
- Oedran
- Crefydd a Chred
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Yr Iaith Gymraeg

Meini Prawf effaith	Sylwadau	Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol)	Camau i leihau effaith negyddol	Effaith weddilliol
Hil	<p>Nid oes yna unrhyw feini prawf fyddai'n gwahardd grŵp ethnig fel rhan o'r cynllun hwn. Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn gwerthfawrogi ac yn parchu ein disgyblion ac yn eu hannog i ddatblygu sgiliau i fod yn unigolion hyderus sydd yn ymwybodol o les eraill ac sydd yn aelodau hapus a chyfrifol o gymdeithas</p> <p>Petai teulu sydd â phlant sydd yn dymuno cael mynediad i'r ysgol nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, byddai cymorth yn cael ei ddarparu gan wasanaeth EAL yr awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo'r disgybl.</p>	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Anabledd	<p>Mae adeilad yr ysgol yn gwbl hygyrch ac ni fydd y cynnydd mewn capasiti yn effeithio ar fynediad i ddisgyblion Anabl.</p> <p>Bydd plant ag anghenion dysgu penodol yn cael eu</p>	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

	<p>hasesu ar gyfer pa gymhorthion mwyaf priodol fydd eu hangen er mwyn caniatáu i ddisgybl fynychu'r ysgol.</p> <p>Byddai'r cynllun yn darparu capasiti ychwanegol yn yr ysgol er mwyn gwasanaethu disgyblion ychwanegol yn cynnwys disgyblion ag Anabledd.</p>			
Rhyw	Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai yn gwahardd ar sail rhywedd.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Oedran	<p>Bydd y gwasanaeth yn agored i blant rhwng 3 ac 11 oed.</p> <p>Bydd y cynllun yn cynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau ar gyfer y grŵp oedran yma.</p>	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Crefydd a Chred	<p>Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai'n gwahardd plentyn na'i deulu ar sail crefydd neu gred.</p> <p>Mae'r cynnydd mewn darpariaeth yn yr ysgol yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol oherwydd:</p> <p>Cynnydd mewn nifer o lefydd sydd ar gael mewn ysgol eglwysig</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o wrthod dewis cyntaf</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o Wrthod Ysgol addas agosaf</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o wrthod brawd neu chwaer</p> <p>Bydd cynnydd mewn capasiti yn y ddarpariaeth Ysgol Eglwysig yn cynyddu'r cyfleoedd i fodloni'r galw ac i annog mynediad.</p>	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai yn gwahardd plentyn na'i deulu ar sail cyfeiriadedd rhywiol.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Ailbennu rhywedd	Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai yn gwahardd plentyn na'i deulu ar sail ailbennu rhywedd.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Priodas a phartneriaeth sifil	Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai yn gwahardd plentyn na'i deulu ar sail priodas neu bartneriaeth sifil.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Beichiogrwydd a mamolaeth	Nid oes unrhyw feini prawf fel rhan o'r cynllun hwn fyddai yn gwahardd plentyn na'i deulu ar sail beichiogrwydd neu famolaeth.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Yr Iaith Gymraeg	<p>Mae'r cynnydd mewn darpariaeth yn yr ysgol yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol oherwydd:</p> <p>Cynnydd yn nifer y llefydd sydd ar gael</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o wrthod dewis cyntaf</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o Wrthod Ysgol addas agosaf</p> <p>Gostyngiad yn yr achosion o wrthod brawd neu chwaer</p> <p>Annog rhieni i gerdded / seiclo i'r ysgol, o ganlyniad i gael lle mewn ysgol sydd yn agosach i'w cartref.</p> <p>Bydd cynnydd mewn capasiti yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'r cyfleoedd i fodloni'r galw ac i annog mynediad.</p>	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

		Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith at ei Gilydd	Cynllun Presennol	3	7	0
	Effaith weddilliol	0	0	0

9. Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 9.1. Dylid nodi bod ceisio cadarnhau yr effaith bosibl ar gydraddoldeb o ganlyniad i drefniant ysgol yn ymgymieriant anodd.
- 9.2. At ei gilydd mae'r effaith o'r asesiad yn gadarnhaol. Mae yna nifer o ystyriaethau effaith nad yw'r cynllun yn effeithio arnynt oherwydd natur y cynllun.
- 9.3. Y prif elfennau cadarnhaol o'r asesiad yw'r cynnydd yn nifer y llefydd sydd ar gael mewn ysgol eglwysig ddwyieithog er mwyn bodloni'r galw ac annog mynediad, gostyngiad yn yr achosion o Wrthod Ysgol addas agosaf, gostyngiad yn yr achosion o wrthod dewis cyntaf, gostyngiad yn yr achosion o wrthod brawd neu chwaer.

10. Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 10.1. Mae'r asesiad o'r effaith yma yn ystyried effaith bosibl y cynllun ar yr Iaith Gymraeg.

Data Cyfrifiad

- 10.2. Daeth y data canlynol o Gyfrifiad 2011 ac mae'n darparu gwybodaeth ar gyfran y siaradwyr Cymraeg yn y ward ble lleolir Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd.

	Poblogaeth	Nifer Siaradwyr Cymraeg	Cyfran Siaradwyr Cymraeg
Llanfair Dyffryn Clwyd/ Gwyddelwern	2162	1044	48.3%

10.3. Mae data'r Cyfrifiad yn dangos y gall 48.3% o'r boblogaeth siarad Cymraeg yn y ward ble lleolir yr ysgol.

Asesiad Risg

10.4. Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar yr iaith Gymraeg, mae'n rhaid ystyried y meysydd canlynol (fel y'u nodir yn y tabl isod):

- Iaith yr ysgol
- Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth addysg / safonau addysgol;
- Mynediad i ddarpariaeth anstatudol;
- Mynediad i weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol;
- Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

Meini Prawf effaith	Sylwadau	Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol)	Camau i leihau effaith negyddol	Effaith weddilliol
Iaith yr ysgol	<p>Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwyieithog sydd ag ethos Gymraeg cryf.</p> <p>Yn dilyn y cynllun bydd yr ysgol yn parhau i fod yn ysgol ddwyieithog.</p>	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg	<p>Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwy ffrwd, ddwyieithog sydd yn amcanu i sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus beth bynnag fo'r iaith y maent wedi ei dewis.</p> <p>Mae darpariaeth Gymraeg a Saesneg yn bodoli ochr yn ochr, ac mae yna bwyslais cryf ar drwytho'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol er mwyn sicrhau bod y nod</p>	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

	<p>hwn, a rennir gan CSDd, yn cael ei gyflawni.</p> <p>Byddai'r cynllun hwn yn golygu y byddai cynnydd yn y capasiti addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion.</p>			
Darpariaeth addysg / safonau addysgol	Ni fydd y cynllun yn effeithio ar ddarpariaeth na chyfleusterau. Mae gan yr ysgol y lle angenrheidiol ar gyfer y cynnydd arfaethedig mewn capasiti a bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi ar gyfer y cynnydd mewn capasiti pan fo angen hynny.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Darpariaeth anstatudol	<p>Ar hyn o bryd mae'r Cylch Meithrin yn cynnal sesiynau bore o ddydd Llun i lau.</p> <p>Efallai y bydd y cynllun hwn yn golygu y byd y ddarpariaeth hon yn cynyddu i fod yn sesiynau bore a phrynhawn, yn ddibynnol ar y galw am ofal cynhwysfawr fyddai'n darparu gofal plant Cymraeg ychwanegol i rieni.</p>	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Mynediad i weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol	<p>Byddai'r clwb brecwast yn parhau yn yr ysgol.</p> <p>Efallai bydd y cynllun yn arwain at gynnydd yn y niferoedd sydd yn mynychu'r ddarpariaeth, a bydd yr ysgol yn goflau am hynny.</p>	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned	Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwy ffrwd, ddwyieithog, a byddai hynny yn	CADARNHAOL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

	<p>parhau petai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo.</p> <p>Gallai'r cynnydd mewn llefydd darpariaeth ddwyieithog yn yr ysgol arwain at effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.</p>			
--	---	--	--	--

Trosolwg - Effaith gychwynnol bosibl ar yr Iaith Gymraeg

		Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith at ei Gilydd	Cynllun Presennol	3	3	0
	Effaith weddilliol	0	0	0

11. Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar yr Iaith Gymraeg

- 11.1. Dylid nodi bod ceisio mesur effaith bosibl y cynllun ar yr Iaith Gymraeg yn ymglymeriant anodd.
- 11.2. Y prif elfennau cadarnhaol sydd yn deillio o'r asesiad o'r effaith yw cynnydd mewn llefydd dwyieithog ar gyfer disgyblion fydd yn cefnogi'r cynnydd yn y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y gymuned. Mae cynyddu capasiti yn gyfle i atgyfnerthu addysg Gymraeg yn yr ardal, ac o ganlyniad i hynny bydd yn atgyfnerthu'r Iaith Gymraeg.
- 11.3. Casgliad: At ei gilydd ni fyddai'r cynllun yn effeithio'n negyddol ar yr Iaith Gymraeg, a gallai'r cynnydd mewn llefydd darpariaeth ddwyieithog yn yr ysgol arwain at effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

12. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

- 12.1. Mae'r asesiad o'r effaith yma yn ystyried effaith bosibl y cynllun ar deuluoedd a'r gymuned leol.

12.2. Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned ystyriwyd y meysydd canlynol:

- Dynodiad Ysgol;
- Cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned leol;
- Effaith ar ysgolion cyfagos;
- Effaith ar rieni a theuluoedd;
- Goblygiadau teithio i ddisgyblion/rhieni;
- Effaith ar weithgareddau cymunedol;
- Effaith ar gyfleusterau cymunedol;
- Effaith ar ddemograffeg cymunedol.

Meini Prawf effaith	Sylwadau	Effaith (cadarnhaol, niwtral neu negyddol)	Camau i leihau effaith negyddol	Effaith weddilliol
Dynodiad Ysgol	Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn ysgol Wirfoddol a Reolir a bydd yn parhau i fod felly os bydd y cynllun yn mynd rhagddo.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned	Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r gymuned mae'n ei gwasanaethu. Felly bydd y cysylltiadau yn parhau.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ysgolion cyfagos	Mae yna alw cynyddol am lefydd mewn Ysgolion, sydd yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn gorfod gwrthod disgyblion. Hefyd mae'r datblygiad tai newydd yn y pentref a rhagfynegiadau disgyblion yn cyfiawnhau'r angen i gynyddu capasiti'r ysgol.	NIWTRAL	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

	<p>Nid yw'r corff llywodraethu yn rhagweld y bydd cynnydd o 3 disgybl am bob grŵp blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar ysgolion cyfagos. Mae'r cynnydd arfaethedig wedi cael ei ystyried, yn ogystal â'r galw, felly ystyrir bod yr effaith yn niwtral.</p>			
<p>Effaith ar ddisgyblion</p>	<p>Mae gan yr ysgol y lle angenrheidiol ar gyfer y cynnydd arfaethedig mewn capasiti a bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi ar gyfer y cynnydd mewn capasiti pan fo angen hynny. Felly ni ragwelir y bydd yna unrhyw effaith negyddol ar ddisgyblion.</p> <p>Bydd y llefydd ychwanegol i ddisgyblion yn helpu rhieni i gael eu dewis cyntaf. Bydd hynny yn ei dro yn creu effaith gadarnhaol ar addysg y disgyblion, ac o ran teithio i'r ysgol agosaf a chael eu haddysgu yn agosach i'w cymuned leol.</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>

<p>Effaith ar rieni a theuluoedd</p>	<p>Ni ddylai fod yna unrhyw effaith sylweddol ar rieni a theuluoedd o ganlyniad i'r cynllun.</p> <p>Bydd y llefydd ychwanegol i ddisgyblion yn helpu rhieni i gael eu dewis cyntaf neu le yn eu hysgol addas agosaf.</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Goblygiadau teithio i ddisgyblion/rhieni</p>	<p>Bydd llefydd ychwanegol yn darparu llefydd ychwanegol i ddisgyblion yn yr ysgol addas agosaf. O ganlyniad i hynny bydd llai o amser teithio a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gerdded/seiclo i'r ysgol.</p>	<p>CADARNHAOL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Effaith ar weithgareddau cymunedol</p>	<p>Oherwydd nad yw'r cynllun un cau ysgol neu yn newid y ddarpariaeth bresennol yn sylweddol, ni ddylai fod yna unrhyw effaith sylweddol ar weithgareddau cymunedol.</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Effaith ar gyfleusterau cymunedol</p>	<p>Ni ddylai fod yna unrhyw effaith ar gyfleusterau cymunedol oherwydd na fydd yna newid i gyfleusterau lleol.</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Effaith ar ddemograffeg cymunedol</p>	<p>Ni ddylai fod yna unrhyw effaith sylweddol ar ddemograffeg cymunedol o ganlyniad i'r cynllun. Mae'r cynnydd arfaethedig ar gyfer cynnal niferoedd a</p>	<p>NIWTRAL</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>

	ragwelwyd fel rhan o'r datblygiad tai newydd a data rhagamcanu disgyblion.			
--	--	--	--	--

Trosolwg - Effaith gychwynnol bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

		Positif	Niwtral	Negyddol
Effaith at ei Gilydd	Cynllun Presennol	1	9	0
	Effaith weddilliol	0	0	0

13. Crynodeb o effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

- 13.1. Dylid nodi bod ceisio cadarnhau effaith bosibl trefniant ysgol ar deuluoedd a'r gymuned leol yn ymgymieriant anodd.
- 13.2. Mae'r cynnydd mewn capasiti ar gyfer cynnal y cynnydd a ragwelwyd mewn niferoedd disgyblion yn seiliedig ar ragfynegiadau disgyblion a'r datblygiad tai newydd yn y pentref, a rhagwelir mai effaith bychan fydd ar y gymuned.
- 13.3. Casgliad: Bydd y cynllun yn arwain at effaith niwtral ar ddisgyblion, rhieni a'u teuluoedd. Mae'r cynnydd arfaethedig wedi ystyried yr effaith ar y gymuned leol, ynghyd â'r galw am lefydd.
- 13.4. Oherwydd nad yw'r cynllun un cau ysgol neu yn newid y ddarpariaeth bresennol yn sylweddol, ni ddylai fod yna unrhyw effaith sylweddol ar weithgareddau cymunedol.
- 13.5. Yn ystod y cyfnod ymgynghori drwyddo draw, os nodir unrhyw effeithiau y gellir eu cyfiawnhau, bydd yr asesiad o'r effaith yn cael ei adolygu a bydd camau yn cael eu hystyried fel bod unrhyw effaith yn cael ei leihau.